Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Ysgrifennu Cynnig Gradd Doethur yn Seiliedig ar Ymarfer – Ysgrifennu Creadigol

Beth yw Gradd Doethur Ymarfer Creadigol?

- Mae Gradd Doethur mewn Ysgrifennu Creadigol yn seiliedig ar ymarfer yn rhoi cyfle i chi gynhyrchu darn estynedig o waith creadigol (nofel, casgliad o farddoniaeth/stori, sgript drama, ac ati) a darn integredig o ysgrifennu beirniadol o hyd at 30,000 o eiriau.
- Mae'r math hwn o astudiaeth yn addas i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn dadansoddi pwnc a/neu ymarfer yn feirniadol drwy'r broses o ysgrifennu creadigol. Er mai'r elfen greadigol o Ddoethuriaeth yn seiliedig ar ymarfer (yn aml) sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r cyfrif geiriau cyffredinol, mae'n rhaid cael syniad beirniadol blaenllaw sy'n cael ei drafod drwy'r adrannau creadigol a beirniadol.
- Mewn Gradd Doethur Ysgrifennu Creadigol mae eich ysgrifennu yn ffurfio 'arbrawf' rydych chi'n myfyrio arno ac yn ei ddadansoddi.
- Gallwch edrych ar ddoethuriaethau sydd wedi'u cwblhau drwy chwiliad allweddair ar https://ethos.bl.uk/Home.do.

Sylfeini:

- Un peth sy'n wahanol am gynnig Gradd Doethur yw eich bod yn ceisio mynegi cwestiynau creadigol a beirniadol y bydd eich prosiect yn eu trafod.
- Dechreuwch gyda'ch cynnig creadigol a rhowch sylfeini ffurf, genre, hyd, ac ati. Mae cynhyrchu'r testun neu'r arteffact yn rhan fawr o'r ymchwil a, phan fydd wedi'i gwblhau, mae'n ganlyniad o bwys.
- Gofynnwch i chi'ch hun beth mae eich gwaith creadigol yn ei brofi – syniad, cwestiwn o ran ffurf, cwestiwn o ran proses – efallai pob un o'r rhain. Bydd hyn yn eich arwain at ffocws y gwaith beirniadol.

Strwythuro Eich Cynnig:

Ni ddylai eich cynnig fod yn fwy na 1500 o eiriau ynghyd â llyfryddiaeth.

- Teitl: Dylai hyn gynnwys teitl eich gwaith creadigol ac is-deitl sy'n dangos eich ffocws beirniadol, e.e, *Haf yn Capri: archwiliad beirniadol o'r defnydd o seicoddaearyddiaeth i sefydlu lleoliad fel cymeriad mewn ffuglen trosedd*.

- Math: Nodwch a ydych chi'n mynd i ysgrifennu nofel, sgript, casgliad o farddoniaeth, ac ati gan roi syniad o hyd.
- Ffurf/Genre: Nodwch ffurf a genre lle bo hynny'n briodol. Os ydych chi'n gweithio ar gasgliad, efallai y bydd angen i chi hefyd nodi'r thema sy'n uno'r casgliad.
- Crynodeb: Rhowch grynodeb dangosol **byr** o'r gwaith creadigol (os yn bosibl).
- Cwestiwn ymchwil: Yn aml, dyma ran fwyaf heriol y broses, gweler y nodiadau isod. Dyma lle byddech chi'n nodi'r 'cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth'. Mae angen i chi sicrhau bod yr adrannau creadigol a beirniadol wedi'u cysylltu'n glir. (Yn aml dyma'r rhan o'r cynnig sy'n gofyn am drafodaeth gyda darpar oruchwyliwr cyn gwneud y cais).
- Cyd-destun: Pa waith sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn? Mae angen deunydd arnoch sydd ar gael i chi allu adeiladu arno a'i ddatblygu. Gall hyn gynnwys nofelau, dramâu, casgliadau barddoniaeth, ac ati a ffynonellau beirniadol ar eich ffurf a'ch pwnc. Bydd angen i chi hefyd gynnwys modelau hanesyddol a/neu ddiwylliannol a/neu ddamcaniaethol.
- Amserlen: Allwch chi roi trosolwg byr iawn o adegau allweddol yn natblygiad arfaethedig eich Doethuriaeth gyda llinell amser o'r dechrau i'r diwedd?
- Moeseg: A oes unrhyw faterion yn ymwneud â moeseg ymchwil y bydd angen mynd i'r afael â nhw? (Gall hyn fod o ganlyniad i ddewisiadau methodolegol fel cyfweliadau neu lle rydych yn delio â straeon pobl go iawn).
- Nodyn bywgraffiadol: Efallai yr hoffech nodi pa waith rydych eisoes wedi'i wneud y byddwch yn ei gyflwyno i'r astudiaeth. Nodwch os oes gennych unrhyw gyhoeddiadau neu wobrau blaenorol, p'un a oes gennych gynrychiolaeth asiantaeth ac ati.
- Llyfryddiaeth ddangosol: Mae'n bwysig bod deunydd ar gael am eich pwnc. Mae hefyd yn bwysig eich bod chi'n gyfarwydd â'r testunau craidd rydych chi'n bwriadu eu defnyddio. Does dim rhaid i chi fod wedi darllen popeth rydych chi'n ei nodi ar eich llyfryddiaeth yn fanwl; mae'n ymarfer pennu cwmpas i nodi testunau craidd. Cadwch y llyfryddiaeth yn benodol ac mor gyfredol â phosibl. Nodwch ffynonellau creadigol a beirniadol y byddwch yn ymchwilio iddynt.

Pan fyddwch wedi drafftio'r uchod, dylech fynd at ddarpar oruchwylwyr am sylwadau ar eich cynnig a help i'w ddatblygu. Dylech hefyd gynnwys sampl o'ch ysgrifennu creadigol. Edrychwch ar y cyfeiriadur staff a gwnewch ymholiadau gydag aelod/aelodau staff sydd ag arbenigedd yn eich maes ymchwil. Gall hwn fod yn ymholiad anffurfiol i ddechrau. Isod fe welwch ddolenni i'n Grŵp Ymchwil gyda chysylltiadau ag arweinydd a chynullydd y grŵp; ein proffiliau staff a'n system olrhain ymchwil newydd, Pure. Yn y dolenni hyn fe welwch wybodaeth am staff a'u diddordebau ymchwil.

- https://www.metcaerdydd.ac.uk/education/research/Pages/Creative-Writing-Community-Health-and-Wellbeing.aspx
- https://www.metcaerdydd.ac.uk/education/staff/Pages/default.aspx
- https://pure.cardiffmet.ac.uk/cy/

Mae'n helpu i wneud yr ymholiad gydag o leiaf gynnig drafft. Yna, pan fyddwch yn gwneud cais ffurfiol drwy dderbyniadau bydd angen cynnig wedi'i gwblhau arnoch.

Mae cynigion cychwynnol yn aml yn rhy eang, gorau oll pwy fwyaf manwl y gallwch fod. Dyma lle bydd darpar oruchwyliwr yn gallu'ch cynghori.

Peidiwch â phoeni bod y cynnig ar ffurf ddrafft – mae'n ddefnyddiol rhannu gwaith ar y gweill a gwaith sy'n datblygu.

Os bydd eich cynnig yn llwyddiannus, cewch eich gwahodd am gyfweliad. Dylech drin eich cynnig fel crynodeb penodol o'r syniadau.

Cwestiwn Ymchwil:

Yn aml dyma'r adran anoddaf i'w chael yn iawn yn ystod y cam cynnig ac yn aml y rhan o'r broses ymchwil a fydd yn newid wrth i chi ddatblygu eich cynnig.

Ystyriwch:

- Pa 'ymyrraeth' mae'r cynnig hwn yn ei wneud yn fy maes astudio? Pa wybodaeth newydd am ffurf a/neu ymarfer y mae'n anelu at ei gynhyrchu?
- Beth mae fy ysgrifennu creadigol yn ceisio ei asesu – gallai hyn ymwneud â syniad beirniadol, ffurf ar ysgrifennu, yr arfer o ysgrifennu/bod yn awdur, neu'r rhain i gyd.
- Pa syniadau beirniadol ydw i'n eu cyflwyno i'r arfer o ysgrifennu a pham?

Y Broses Gwneud Cais:

Mae manylion y gofynion ymgeisio a mynediad ar gael yma – https://www.metcaerdydd.ac.uk/study/adviceforapplicants/ptpg/Pages/Research-Programmes.aspx.

Sylwer:

Os ydych chi'n gwneud cais am PhD gydag elfen sy'n seiliedig ar ymarfer (fel Gradd Doethur Ysgrifennu Creadigol), mae angen portffolio o ysgrifennu hefyd.

Adnoddau Ychwanegol:

Find a PhD – https://www.findaphd.com/guides/writing-phd-research-proposal

Indeed – https://uk.indeed.com/career-advice/career-development/how-to-write-phd-proposal

PhD Assistance – https://www.phdassistance.com/blog/how-to-write-your-research-proposal/

Prospects UK – https://www.prospects.ac.uk/postgraduate-study/phd-study/how-to-write-a-successful-research-proposal

Vitae – https://www.vitae.ac.uk/doing-research/doing-a-doctorate/starting-a-doctorate/writing-a-research-proposal